

## Proses Cymeradwyo Prosiectau'r Gronfa Ffyniant Gyffredin

Mae cymeradwyaethau ar gyfer prosiectau/cynlluniau fel rhan o Gynllun Buddsoddi Lleol Cronfa Ffyniant Gyffredin y DU yn cael eu goruchwylio gan Bartneriaeth Pobl a Lle Sir Fynwy (cyfeirir ati fel 'Partneriaeth Strategol'). Mae'r bartneriaeth yn cynnwys aelodau o amrywiaeth o sefydliadau rhanddeiliaid a gwasanaethau awdurdodau lleol, sydd ag arbenigedd sy'n gysylltiedig â blaenoriaethau craidd y gronfa. Mae'r ddogfen hon yn amlinellu'r broses a wneir ar gyfer cyfleoedd ariannu a gychwynwyd naill ai ar gyfer cynigion a ddatblygwyd yn allanol gan yr awdurdod lleol ('cyfle allanol') neu ar y cyd ar gyfer cynigion a ddatblygwyd yn allanol a chynigion gwasanaeth mewnol ('cyfle cyfunol').

1. Cyflwynir cynigion y prosiect trwy ffurflen mynegi diddordeb. Mewn amgylchiadau lle nad oes cyllid ar gael ar hyn o bryd, bydd unrhyw fynegiant o ddiddordeb yn cael eu cynnal hyd nes y bydd cyfle ariannu yn agor, neu hyd nes y daw'r rhaglen ariannu i ben.
2. Cynhelir asesiad cychwynol ar bob cynnig i bennu cymhwysedd y partner(iaid) a enwir a'r cynnig ei hun. Lle nodir anghymwyster, bydd y partner arweiniol yn cael ei hysbysu, ac ni fydd y cynnig bellach yn cael ei ystyried yn y dyfodol.
3. Pan fydd cyfle allanol neu gyfunol yn cael ei gadarnhau gan y Bartneriaeth Strategol, caiff cynigion eu hasesu a'u sgorio ar y meini prawf canlynol. (Gweler atodiad 1)

<b>I ba raddau y mae'r cynnig yn dangos:</b>	
Y gallu i fodloni meini prawf Llywodraeth y DU ar gyfer y rhaglen a chyflawni canlyniadau o fframwaith y rhaglen	U
Cyfraniad at ddiwallu anghenion strategol yr ardal fel y nodir yng Nghynllun Cymunedol a Chorfforaethol 2022-28 a strategaethau perthnasol eraill	U
Mae'n cynrychioli gwerth am arian ac na ellir ariannu'r prosiect o lefydd eraill	U
Aliniad ag anghenion lleol a fydd yn ategu ac nid dyblygu'r ddarpariaeth bresennol	C
Profiad a gallu noddwr y prosiect	C
Ymgysylltiad lleol sylweddol â rhanddeiliaid a buddiolwyr posibl	I
Y gallu i adnabod a rheoli risgiau'n effeithiol	I
Y gellir cydymffurfio â rheoliadau rheoli cymhorthdal Llywodraeth y DU	I
Gallant gyflawni o fewn amserlen fer y rhaglen	I
Bydd y ddarpariaeth honno'n ystyried dyletswyddau cydraddoldeb, yr iaith Gymraeg ac arfer da'r amgylchedd	I

*Mae U, C, I yn dynodi pwysoliadau meini prawf Uchel, Canolig ac Isel yn y drefn honno.*

4. Mae pob maen prawf yn cael ei sgorio 0 i 5 gyda 5 yw'r sgôr uchaf. Y sgôr uchaf a gyrhaeddir yn gyffredinol yw 55. Mae'r camau nesaf, yn dibynnu ar sgôr, yn cael eu hamlinellu isod:

<b>Sgôr:</b>	<b>Camau Nesaf / Argymhelliad:</b>
0-30	Heb ystyried ymhellach
31-45	Partneriaeth i gytuno ar gymeradwyaeth dros dro wrth ddisgwyl rhagor o wybodaeth, neu wrthod gyda rhesymau
46+	Cymeradwyaeth dros dro

5. Beth bynnag yw'r camau nesaf, cyflwynir crynodeb o sgoriau cynnig i'r Bartneriaeth Strategol i ystyried/adolygu. Gall y Bartneriaeth Strategol herio sgorau a'u cyfeirio yn ôl ar gyfer ail-sgorio lle bo hynny'n briodol neu ofyn am eglurhad pellach gan y partner arweiniol.
6. Mae ystyriaeth gan y Bartneriaeth Strategol yn hanfodol er mwyn sicrhau nad oes dyblygu darpariaeth bresennol, y bydd y cynnig yn darparu ychwanegiad, yn cynrychioli gwerth am arian, ac yn cyd-fynd â blaenoriaethau strategol.
7. Mae'r sgoriau'n penderfynu'r argymhelliad a'r camau nesaf ar gyfer cynnig. Yn dilyn ystyriaeth, mater i'r bartneriaeth yw cytuno, gwrthod neu ohirio penderfyniad cyfarfod dilynol.
8. Gall cytundeb cymeradwyo dros dro gan y Bartneriaeth Strategol barhau i fod yn amodol ar argaeledd cyllid. Bydd angen i gynigion gyd-fynd â pharamedrau'r cynllun buddsoddi lleol a dim ond ar gyfer cadarnhau'r dyfarniad y gellir eu hystyried yr amgylchiadau isod:
  - a. Daw cyllid ar gael o fewn Blaenoriaeth/Ymyriadau Buddsoddi priodol Cronfa Ffyniant Gyffredin y DU.
  - b. Daw cyllid ar gael sy'n bodloni gofynion cyfalaf/refeniw'r cynnig
  - c. Mae cyllid ar gael i dalu am gost gyflenwi'r cynnig yn llawn
9. Pan fydd y bartneriaeth yn cytuno ar gymeradwyaeth dros dro, ac ar y sail bod cyllid priodol ar gael, cyfeirir y penderfyniad at yr aelod etholedig perthnasol a'r Cyfarwyddwr Strategol i'w gadarnhau.
10. Naill ai tra bod cynnig yn aros i'w ystyried, neu ar ôl iddo gael ei gymeradwyo, bydd swyddogion yn cysylltu â phartneriaid arweiniol i ddarparu dogfennaeth berthnasol fel rhan o wiriadau diwydrwydd dyladwy. Mae hyn yn rhan o'r meini prawf cymhwyster, sy'n cynnwys:
  - a. Unrhyw sail dros waharddiadau gorfodol neu ddewisol (e.e. gweithgaredd troseddol, llygredd/twyll)
  - b. Bodolaeth endid cyfreithiol a'i sefyllfa ariannol
  - c. Unrhyw wrthdaro buddiannau a allai beryglu dull rheolaeth prosiect
  - d. Cymhwysedd sefydliadol ar gyfer cymorth Cronfa Ffyniant Gyffredin y DU fel y nodir yn y prosbectws/tudalennau gwybodaeth ychwanegol
  - e. Uchafswm gwerth grant (os yw'n berthnasol)
  - f. Alinio i Ymyriadau a Blaenoriaethau Cronfa Ffyniant Gyffredin y DU
  - g. Datganiadau cyffredinol eraill (e.e. argaeledd adnoddau, argaeledd amserlen)
11. Bydd methu â bodloni'r meini prawf hanfodol fel rhan o wiriadau diwydrwydd dyladwy yn penderfynu nad yw cynnig yn cael ei ystyried ymhellach. Lle mae cynnig grant dros dro eisoes wedi'i wneud, bydd hyn yn cael ei wneud yn ddi-rym.

## Atodiad 1 - Rhestr Wirio a Dadansoddiad y Meini Prawf

### MEINI PRAWF CYMHWYSEDD

RHESTR WIRIO MEINI PRAWF	I e / N a
Nid oes unrhyw sail wedi'u nodi ar gyfer gwaharddiadau gorfodol neu ddewisol	
Mae endid cyfreithiol yn bodoli (a gall ddarparu manylion am ei sefyllfa ariannol) a fydd yn gyfrifol am gyflawni'r prosiect fel partner arweiniol	
Nid oes unrhyw wrthdaro buddiannau wedi'u nodi a allai beryglu ymddygiad y prosiect (neu bartneriaid)	
Mae'r partner arweiniol a'r partneriaid cyflenwi (lle bo hynny'n berthnasol) yn sefydliadau cymwys fel y nodir ym mhrosiectws y Gronfa Ffyniant Gyffredin y DU.	
Nid yw'r cynnig yn fwy na'r uchafswm gwerth grant (lle bo hynny'n berthnasol)	
Mae'r cynnig yn cyd-fynd ag ymyriadau a blaenoriaethau'r gronfa	
Nid oes unrhyw bryderon yn cael eu codi drwy ddatganiadau cyffredinol	

### MEINI PRAWF PERFFORMIAD

RHESTR WIRIO MEINI PRAWF	I e / N a
Nid oes unrhyw bryderon wedi'u nodi ynghylch perfformiad (ariannol neu fel arall) unrhyw brosiect(au) neu gynllun(iau) eraill sy'n cael eu cyflawni gan y partner arweiniol a phartneriaid eraill drwy naill ai cyllid Cronfa Ffyniant Gyffredin y DU neu gyllid awdurdod lleol arall.	

### MEINI PRAWF ASESU

Caiff cynigion eu hasesu yn erbyn meini prawf a'u sgorio rhwng 0 a 5, gyda 5 yn sgôr uchaf. Mae'r sgoriau 'sydd ar gael' o fewn y raddfa yn amrywio yn ôl maen prawf ac fe'u hamlinellir yn y tabl diffiniadau. Bydd y graddfeydd yn un o'r canlynol:

- **Graddfa lawn o 0 i 5** gyda diffiniadau a ddarperir ar gyfer pob opsiwn sgorio.
- **Graddfa gynyddrannol** (e.e. 0,1,3,5) lle mai dim ond y sgoriau diffiniedig sy'n cael eu defnyddio. Mae methu â bodloni'r diffiniad sgôr isaf yn arwain at sgôr sero.
- **Graddfa ddeuaidd** (e.e. 0,5) sy'n nodi bod y meini prawf naill ai wedi'u bodloni (5) neu heb eu bodloni (0)

Pan nad yw opsiynau sgorio wedi'u rhestru a'u diffinio yn erbyn maen prawf nid ydynt yn cael eu defnyddio. Ar gyfer pob maen prawf, neilltuir sgôr o sero lle mae 'Methiant i ddangos y gellid cwrdd â'r meini prawf.'

## Atodiad 1 - Rhestr Wirio a Dadansoddiad y Meini Prawf

Mae'r rhestr lawn o feini prawf, sgoriau sydd ar gael a diffiniadau ategol wedi'i chynnwys isod:

Meini Prawf	Sgôr	Diffiniad cefnogol
Y gallu i fodloni meini prawf Llywodraeth y DU ar gyfer y rhaglen a chyflawni canlyniadau o fframwaith y rhaglen	5	Yn dangos yn glir: <ul style="list-style-type: none"> <li>• ei fod yn cyd-fynd â'r ymyriadau targed,</li> <li>• ei fod wedi nodi allbynnau a chanlyniadau priodol a chyflawnadwy o'r rhestr safonol,</li> <li>• ei fod yn darparu cyd-destun o sut mae'r gweithgaredd yn cyd-fynd â phwrpas y gronfa, fel y nodir yn y prospectws.</li> </ul>
	3	Yn dangos yn glir: <ul style="list-style-type: none"> <li>• ei fod yn cwrdd â rhan fwyaf, ond nid pob un, o'r uchod</li> </ul>
	1	Yn dangos yn glir: <ul style="list-style-type: none"> <li>• ei fod yn cwrdd ag o leiaf un o'r uchod</li> </ul>
Cyfraniad at ddiwallu anghenion strategol yr ardal fel y nodir yng Nghynllun Cymunedol a Chorfforaethol 2022-28 a strategaethau perthnasol eraill	5	Aliniad clir ac amlwg i amcanion strategol fel y nodir yn y Cynllun Cymunedol a Chorfforaethol a strategaethau perthnasol eraill. Gall hyn gynnwys manylion am amcanion a chamau gweithredu strategol penodol.
	4	Aliniad eang ag amcanion strategol penodol ond llai o fanylion nag uchod.
	2	Mae'r cynnig ond yn dangos cysylltiadau â chyd-destun strategol ehangach
	1	Aliniad lleiaf posibl â strategaethau perthnasol
Mae'n cynrychioli gwerth am arian ac na ellir ariannu'r prosiect o lefydd eraill	5	Yn amlwg ni ellir ei ariannu o lefydd eraill a/neu'n dangos gwerth da iawn am arian. Gall hyn gynnwys manylion asesiadau gwerth am arian, trosoledd arian cyfatebol neu fuddsoddiad mewnol, neu arbedion cost yn y dyfodol.
	3	Ni ellir ei ariannu o lefydd eraill ac mae'n rhoi ychydig o fanylion am sut mae'n sicrhau gwerth am arian
	1	Mae ffynonellau cyllid amgen ar gael yn glir, NEU cynnwys gwan o ran sut mae gwerth am arian yn cael ei gyflawni
Aliniad ag anghenion lleol a fydd yn ategu ac nid dyblygu'r ddarpariaeth bresennol	5	Mynd i'r afael ag angen lleol a nodwyd ac nad yw'n gorgyffwrdd, a/neu'n ategu'r ddarpariaeth bresennol
	4	Ychydig iawn o orgyffwrdd â'r ddarpariaeth bresennol ac yn nodi angen lleol
	3	Rhywfaint o orgyffwrdd ond yn nodi angen lleol

Atodiad 1 - Rhestr Wirio a Dadansoddiad y Meini Prawf

	2	Lefel uchel o orgyffwrdd â'r ddarpariaeth bresennol NEU ddiffyg nodi angen lleol
	1	Yn amlwg yn dyblygu darpariaeth bresennol
Profiad a gallu noddwr y prosiect	5	Profiad amlwg o gyflawni'r math hwn o brosiect yn effeithiol.
	4	Profiad o gyflawni prosiectau tebyg o'r raddfa hon.
	3	Profiad o gyflawni prosiectau tebyg ar raddfa lai.
	1	Dangosir profiad cyfyngedig iawn o'r gallu yn y cynnig
Ymgysylltiad lleol sylweddol â rhanddeiliaid a buddiolwyr posibl	5	Mae rhanddeiliaid a/neu fuddiolwyr wedi cymryd rhan effeithiol yn natblygiad y cynnig neu drwy gynlluniau ymgysylltu perthnasol a phriodol eraill sydd wedi helpu i lunio'r cynnig.
	3	Rhyw lefel o ymgysylltu â rhanddeiliaid a/neu fuddiolwyr
	1	Ymgysylltiad isel â rhanddeiliaid a/neu fuddiolwyr
Y gallu i adnabod a rheoli risgiau'n effeithiol	5	Ymateb manwl yn manylu ar risgiau a champau lliniarol priodol
	1	Adnabod a lliniaru risg sylfaenol iawn
Y gellir cydymffurfio â rheoliadau rheoli cymhorthdal Llywodraeth y DU	5	Nid yw rheoli cymhorthdal yn berthnasol i gyflawni prosiectau; NEU fanylion am sut y bydd y prosiect yn cydymffurfio â rheolaeth gymhorthdal
Gallant gyflawni o fewn amserlen fer y rhaglen	5	Mae'r cynnig yn codi ond ychydig neu ddim pryder o gwbl ynghylch cyflawni amserlen y rhaglen
	3	Mae'r cynnig yn codi rhywfaint o bryder ynghylch cyflawni o fewn amserlen y rhaglen ond mae'n nodi camau priodol wrth gefn/lliniaru
Bydd y ddarpariaeth honno'n ystyried dyletswyddau cydraddoldeb, yr iaith Gymraeg ac arfer da'r amgylchedd	5	Darperir manylion o sut y bydd y prosiect yn ystyried polisiau perthnasol a/neu gyfeiriad at bolisiau/gweithdrefnau sefydliadol a fydd yn cefnogi cydymffurfiaeth